




**INVASION
SCIENCE**

BRITISH ECOLOGICAL SOCIETY

Supported by



Rhwydwaith Ecolegol Gwydn Cymru
Wales Resilient Ecological Network

Digwyddiad SIG Gwyddoniaeth Ymlediad BES: Gwella cyfraniad gwyddoniaeth ymlediad at bolisi a rheolaeth, Llandudno, dydd Mawrth 20^{fed} Mehefin 2023

09.30-10.00	Cofrestru a Phaned		
10.00-10.15	Croeso	Katie O'Shaughnessy a Steph Bradbeer	
10.15-10.45	Prif Siaradwr	Dr Emily Smith	Rheolaeth ymlediad ar waith - trosi ymchwil ymledol i'r gymuned bysgota
10.45-11.20	Sgyrsiau Sydyn	Lucinda Lintott	Adnodd Asesu Risg Rhywogaethau Anffrodorol Ymledol (INNS) Morol (MIRAT): adnodd asesu risg ar gyfer cyflwyno a sefydlu INNS morol
		Oluwadunsin Adekola	Cofnodi effeithiau rhywogaethau ymledol drwy wyddoniaeth dinasyddion: astudiaeth beilot
		Katie Dey	Effeithiau posibl y gragen las y graig Asiaidd anffrodorol yn y DU
		Niall Moore	Cyflwyniad i'r Cynllun Strategol Tystiolaeth
11.20-11.40	<i>Egwyl</i>		
11.40-13.00	Sesiwn Panel Ymchwilydd Gyrfa Cynnar	Panelwyr: Jessica Minett, Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru / WaREN Theresa Kudelska, Cyfoeth Naturiol Cymru Finn Eaton, DEFRA Paul Stebbing, APEM Katharina Dehnen-Schmutz, Prifysgol Coventry	
13.00-14.00	<i>Cinio</i>		
14.00-14.25	Sgyrsiau Sydyn	Sam Reynolds	Cyfes ddata meta: Defnyddio tystiolaeth fyd-eang ar gyfer gwneud penderfyniadau lleol
		Tomos Jones	Dihangwyr Gerddi! - Cynnwys garddwyr wrth atal 'ymledwyr y dyfodol'
		Manoa Rajaonarivelo	Fframio adfer tirwedd coedwigoedd i osgoi ymlediad rhywogaethau anffrodorol o goed mewn gwlad drofannol broblemus: Madagascar
14.25-14.55	Prif Siaradwr	Yr Athro David Aldridge	Integreiddio ymchwil rhywogaethau ymledol â pholisi a rheolaeth
14.55-15.15	<i>Egwyl</i>		
15.15-15.40	Sgyrsiau Sydyn	Mandy Marsh	Beth mae CIEEM yn ei wneud i'r ecolegwyr a'r amgylchedd
		Emily Stevenson	Crynhoi 35 mlynedd o ymchwil gwyddoniaeth ymlediad
		Hannah Tidbury	Gwell tystiolaeth fel sail i fonitro rhywogaethau ymledol morol
15.40-16.40	Gweithdy: Cynllun Strategol Tystiolaeth	GB NNS	Dolen i'r cynllun strategol tystiolaeth yma
16.40-17.00	Sylwadau i Gloi	Katie O'Shaughnessy a Steph Bradbeer	



**INVASION
SCIENCE**

BRITISH ECOLOGICAL SOCIETY

Supported by



Sgyrsiau Sydyn (5 munud a 2 funud ar gyfer cwestiynau)


<p>Lucinda R. Lintott, Kathryn A. O'Shaughnessy a Paul D. Stebbing</p>	<p>Adnodd Asesu Risg Rhywogaethau Anffrodorol Ymledol (INNS) Morol (MIRAT): adnodd asesu risg ar gyfer cyflwyno a sefydlu INNS morol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae lleihau'r risg o gyflwyno a sefydlu rhywogaethau anffrodorol ymledol (INNS) morol yn hanfodol ar gyfer lliniaru effeithiau niweidiol y rhywogaethau hyn. Mae deall ac asesu'r risgiau hyn yn angenrheidiol ar gyfer datblygu cynlluniau bioddiogelwch safle-benodol fel mesur rheoli. • Er mwyn hwyluso'r broses hon, rydym wedi datblygu adnodd i asesu'r risg o gyflwyno a sefydlu INNS yn seiliedig ar lwybrau safle-benodol a newidynnau addasrwydd cynefinoedd. Adeiladwyd yr adnodd hwn yn dilyn adolygiad llenyddiaeth o lwybrau INNS morol a mesurau bioddiogelwch (yn cael eu paratoi). • Drwy weithredu ar sail modiwlau gyda safleoedd a gweithgareddau morol, mae'n archwilio llwybrau rhagarweiniol posibl o fewn yr ardal asesu risg ac yn rhoi sgôr risg gymharol ar gyfer pob llwybr a nodwyd. • Gall yr adnodd hefyd roi cyfrif am ddigwyddiadau dros dro (e.e., cystadlaethau cychod), gan gynhyrchu sgoriau risg cymharol y gellir eu defnyddio fel sail i fesurau bioddiogelwch digwyddiad-benodol. • Ar gyfer pob ardal asesu risg, cynhyrchir rhestr o INNS sy'n benodol i'r DU yn seiliedig ar bresenoldeb llwybrau a chynefinoedd addas. Gellir defnyddio'r rhestr hon i roi ffocws i amcanion monitro. • Mae modiwl ar wahân yn yr adnodd yn asesu bodolaeth ac addasrwydd mesurau bioddiogelwch cyfredol o fewn yr ardal asesu risg y bwriedir iddynt fynd i'r afael â gweithgareddau sy'n peri risg o gyflwyno neu ledaenu INNS (e.e., rheoliadau ar lanhau cychod a darparu cyfleusterau golchi). • Gellir defnyddio'r allbynnau o'r adnodd hwn fel sail i'r gwaith o ddatblygu cynlluniau bioddiogelwch ar sail llwybrau i lawr yr afon sy'n hanfodol i leihau'r broses o gyflwyno a ledaenu INNS morol.
<p>Oluwadunsin Adekola, Tomos Jones a Katharina Dehnen-Schmutz</p>	<p>Cofnodi effeithiau rhywogaethau ymledol drwy wyddoniaeth dinasyddion: astudiaeth beilot</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae rhywogaethau dieithr ymledol (IAS) yn parhau i gael effeithiau amgylcheddol ac economaidd-gymdeithasol negyddol yn fyd-eang, ac mae tystiolaeth o'u heffeithiau yn hanfodol ar gyfer rheolaeth ac ymatebion polisi effeithiol. • Mae'r safon fyd-eang cyfredol ar gyfer asesiadau effaith IAS, sef fframwaith EICAT (Dosbarthiad Effaith Amgylcheddol Tacs Dieithr), yn seiliedig ar asesiadau arbenigol o dystiolaeth sydd wedi'i chyhoeddi, a all fod yn brin, heb fod yn gyfredol neu heb ei chasglu gan ddefnyddio protocolau maes safonol. • Er mwyn mynd i'r afael â'r bwlch hwn, nod y prosiect hwn yw archwilio dull newydd o ddefnyddio gwyddoniaeth dinasyddion i ddatblygu a phrofi protocolau maes a digidol ar gyfer asesiadau effaith. • Bydd y canlyniadau'n cael eu dadansoddi a'u cymharu ar gyfer gwahanol rywogaethau a phrotocolau, gan ddarparu sylfaen dystiolaeth well ar gyfer cyfeirio adnoddau ar gyfer asesu a rheoli risg IAS. • Mae'r prosiect hwn yn cynnig cyfle arloesol nid yn unig i arloesi datblygiad a phrofi protocolau maes safonol ar gyfer asesu effeithiau IAS, ond hefyd i ddarparu tystiolaeth am sut gall dulliau gwyddoniaeth dinasyddion gyfrannu at asesu effeithiau IAS a sut gellir integreiddio'r dulliau hyn yn y fframweithiau asesu effaith a'r asesiadau risg presennol. • Gall yr astudiaeth hon fod yn fodel ar gyfer ymchwil yn y dyfodol sy'n ceisio ymchwilio i effeithiau cymdeithasol ac economaidd IAS. Nid yw canlyniadau'r prosiect hwn yn gyfyngedig i'r DU, oherwydd gellir cymhwyso'r protocolau yn



**INVASION
SCIENCE**

BRITISH ECOLOGICAL SOCIETY

Supported by



	<p>rhyngwladol, gan gynnig cyfraniad gwerthfawr at yr ymdrechion byd-eang i reoli a lliniaru effeithiau IAS.</p>
<p>Dey KG, Tidbury H, Stebbing P, Watson GJ</p>	<p style="text-align: center;">Effeithiau posibl y gragen las y graig Asiaidd anfrodorol yn y DU</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r gragen las y graig Asiaidd (<i>Arcuatula senhousia</i>) yn un o'r rhywogaethau morol anfrodorol mwyaf cyffredin yn fyd-eang ac mae'n ymledol mewn rhannau helaeth o'r amrediad a gyflwynwyd ganddi. Wedi'i chofnodi yn y DU am y tro cyntaf yn ddiweddar, mae'n bosibl bod <i>A. senhousia</i> ar fin ehangu ei hamrediad yn sylweddol ledled y DU ac Ewrop. • Mae deall ecoleg <i>A. senhousia</i> a'i rhyngweithio â rhywogaethau eraill yn allweddol i asesu effaith effeithiol, fodd bynnag, mae bylchau mawr mewn gwybodaeth o hyd. I fynd i'r afael â hyn, rydym yn dangos dull asesu effaith cyfannol a chytbwys ar gyfer <i>A. senhousia</i> yn y DU. • Cadarnhaodd arolygon islanwol ynghyd â dadansoddiadau morffometrigrig ac atgenhedlol ddeinameg poblogaeth <i>A. senhousia</i>, gan ddatgelu dwysedd isel ond poblogaethau parhaus o fewn cynefinoedd o bwysigrwydd masnachol ac ecolegol. Gall atgynhyrchu estynedig yn yr haf orgyffwrdd â chregyn deuglawr allweddol eraill, gan greu cystadleuaeth swbstrad ac achosi niwed i seilwaith, gan gynnwys offer dyframaethu, os bydd y dwyseddau'n cynyddu. • Dangosodd arbrofion cyfradd bwydo, gan ddefnyddio'r dull cyfradd glirio anuniongyrchol, bod cyfradd glirio <i>A. senhousia</i> 2-26 x yn uwch na chyfraddau clirio cregyn deuglawr eraill wrth safoni fesul g o feinwe. Felly gallai ymlediad <i>A. senhousia</i> achosi cystadleuaeth am fwyd ac addasu cymunedau benthig a phlancton. • Byddwn yn pennu cysylltiadau â benthos eraill gan ddefnyddio setiau data o arolygon hanesyddol a diweddar i asesu ymhellach a allai <i>A. senhousia</i> ddylanwadu ar gyfansoddiad cymunedau macrobenthig. • Gyda'i gilydd mae'r data hyn yn cadarnhau bod <i>A. senhousia</i> ar hyn o bryd yn fygythiad cymedrol i nwyddau a gwasanaethau ecosystemau Ewropeaidd. Fodd bynnag, mae modelu dosbarthiad rhywogaethau yn awgrymu bod y bygythiad hwn yn debygol o gynyddu yn y DU a Gogledd Ewrop wrth i newid hinsawdd wneud amodau amgylcheddol yn fwy addas.
<p>Sam Reynolds</p>	<p style="text-align: center;">Cyfes ddata meta: Defnyddio tystiolaeth fyd-eang ar gyfer gwneud penderfyniadau lleol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Wrth benderfynu sut i reoli rhywogaethau ymledol, rydym yn aml yn wynebu nifer o gwestiynau: Pa gamau rheoli allwn ni eu cymryd? A fyddant yn effeithiol? A fyddant yn effeithiol yn fy sefyllfa i? Mae penderfynu beth i'w wneud yn gofyn am bwysu a mesur y dystiolaeth sydd ar gael ond mae asesu a dehongli cymhlethdod y dystiolaeth yn aml yn heriol. • Defnyddir meta-ddadansoddiad yn aml i gyffredinoli ar draws yr holl dystiolaeth sydd ar gael ar raddfa fyd-eang. Ond sut gellir defnyddio'r cyffredinoli byd-eang yma i wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth ar raddfa leol, pan fo rhywfaint o'r dystiolaeth yn annhebygol o fod yn berthnasol i benderfyniadau lleol? • Fe wnaethom ddatblygu dull o'r enw "meta-ddadansoddiad deinamig", sy'n galluogi defnyddwyr i ryngweithio â'r sylfaen dystiolaeth fyd-eang i asesu effeithiolrwydd camau rheoli ar gyfer eu rhywogaeth o ddewis yn y cyd-destun o'u dewis. Rydym wedi creu adnodd ar-lein am ddim o'r enw Metadataset sy'n hwyluso hyn (www.metadataset.com). • Ffocws cyfredol Metadataset yw casglu meintiau effaith gwahanol gamau rheoli ar gyfer yr 88 o rywogaethau ymledol sy'n peri pryder yn yr Undeb Ewropeaidd, yn ogystal â mesur yr effeithiau oddi ar darged ar rywogaethau brodorol a ffactorau biotig ac anfiotig eraill. • Rydym wedi datblygu ap prototeip, sy'n galluogi defnyddwyr i hidlo'r data byd-eang yn ôl nifer o ffactorau gan gynnwys gwlad, ecosystem, a math o ymyriad. Mae'r ap yn cyfrifo meintiau effaith yn awtomatig, yn darparu graffiau ac yn asesu tuedd



**INVASION
SCIENCE**

BRITISH ECOLOGICAL SOCIETY

Supported by




	<p>cyhoeddi ar gyfer y data a ddewiswyd. Yn ogystal, mae'n rhoi cyfle i ddefnyddwyr lawrlwytho'r data crai i gynnal dadansoddiadau pwrpasol.</p> <ul style="list-style-type: none"> Rydym yn gobeithio datblygu'r adnodd hwn ymhellach gyda mewnbwn gan ddarpar ddefnyddwyr.
<p>Tomos Jones, Lisa Toth a Katharina Dehnen-Schmutz</p>	<p>Dihangwyr Gerddi! - Cynnwys garddwyr wrth atal 'ymledwyr y dyfodol'</p> <ul style="list-style-type: none"> Yn fyd-eang ac yma yng Nghymru, mae planhigion addurnol sy'n ymledu o erddi yn un o brif ffynonellau rhywogaethau ymledol. Mae'r prosiect hwn yn ymgysylltu â garddwyr ledled gogledd orllewin Cymru i edrych ar ba blanhigion addurnol sy'n ymledu mewn gerddi er mwyn adnabod y rhai sydd â photensial ymledol, 'ymledwyr y dyfodol'. Mae ardaloedd targed wedi'u dewis drwy ddadansoddi dosbarthiad planhigion rheolaeth dymor hir (rhestr Rhywogaethau Blaenoriaeth Ymledol Cymru ar gyfer Gweithredu), yn ogystal â data poblogaeth (ar gyfer cyfranogwyr digonol) a lleoliad safleoedd gwarchoddedig. Yr ardaloedd targed yw: Bangor a Phorthaethwy; Porthmadog a Phenrhyndeudraeth; a Llandudno a Bae Colwyn. Mae rhestr gychwynnol o bymtheg rhywogaeth o ddiddordeb wedi'i llunio drwy ymgynghori ag astudiaeth a ofynnodd i Gofnodwyr Is-sirol Cymdeithas Fotaneg Prydain ac Iwerddon enwi'r planhigion yr oeddent yn ystyried oedd yn cael yr effeithiau amgylcheddol mwyaf. Ymgynghorwyd hefyd â'r sganio gorwel diweddaraf ar gyfer cofnodion GB a Plant Alert yng Nghymru. Newydd-deb y prosiect hwn yw ymgysylltu'n uniongyrchol â garddwyr yn eu gerddi eu hunain. Hefyd, yn bwysig, edrych ar ba rywogaethau sydd eisoes i'w gweld y tu allan i erddi. Er enghraifft, mewn ardaloedd gwarchoddedig cyfagos, oherwydd dyma lle mae'n bwysicaf atal 'ymledwyr y dyfodol'. Bydd hyn yn sail i gyngor ac argymhellion penodol ar gyfer yr ardaloedd targed, gan gynnwys planhigion addurnol sy'n llai tebygol o ddod yn broblem yn y dyfodol. Bydd ymgysylltu â'r cyhoedd drwy ddigwyddiadau a theithiau o amgylch safleoedd gwarchoddedig fel rhan o'r prosiect hwn yn cynyddu ymwybyddiaeth o'r mater pwysig hwn hefyd.
<p>Manoa Rajaonarivelo</p>	<p>Fframio adfer tirwedd coedwigoedd i osgoi ymlediad rhywogaethau anffrodorol o goed mewn gwlad drofannol broblemus: Madagascar</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae datrysiadau sy'n seiliedig ar natur wedi'u cydnabod fel un o'r datrysiadau effeithiol i liniaru'r newid yn yr hinsawdd sy'n cynnwys, ymhlith eraill, hyrwyddo adfer tirweddau a choedwigoedd. Ar gyfer Madagascar, ceir ymrwymiad o hyd i warchod a diogelu adnoddau naturiol. Ar wahân i'r ymdrech cadwraeth o dan ardaloedd gwarchoddedig, ymrwymodd y wlad drofannol i her Bonn i adfer 4 miliwn ha erbyn 2030. Fodd bynnag, sylwyd bod y strategaethau'n canolbwyntio'n bennaf ar ailgoedwigo ar raddfa fawr sydd, ers y gorffennol, wedi canolbwyntio bob amser ar blannu rhywogaethau anffrodorol, sy'n arwain yn raddol at ymlediad biolegol. Dangosodd dadansoddiad cymdeithasol o hyrwyddo rhywogaethau ymledol o goed fel pinwydd, er gwaethaf pwysau gweinyddol i ddileu lluosogiad pinwydd y tu mewn i goetir endemig Malagasi, bod pobl yn gwrthwynebu oherwydd eu bod yn ffynhonnell o incwm iddynt, ac nid ydynt yn gweld effaith wirioneddol yr ymledu presennol. Mae'r dadansoddiad o gonfensiwn a chytundeb rhyngwladol mewn newid yn yr hinsawdd, ond hefyd y testun rheoleiddiol a deddfwriaethol ym Malagasi ar gyfer adfer ac ailgoedwigo, yn dangos yr un canlyniad: diffyg ystyried bioamrywiaeth yn y datrysiadau arfaethedig, diffyg cydnabyddiaeth i rywogaethau anffrodorol fel rhai peryglus a hyrwyddo datblygiad y tu hwnt i effeithiau amgylcheddol. Felly, er mwyn dod o hyd i'r cydbwysedd cywir wrth gyflawni ymrwymiaadau rhyngwladol a gweithredu ar lawr gwlad, dylai fod angen polisiau cenedlaethol sy'n fwy addas i'r cyd-destun cymdeithasol-economaidd a'r cyd-destun amgylcheddol lleol



**INVASION
SCIENCE**

BRITISH ECOLOGICAL SOCIETY


Supported by



	<p>i gyflawni effeithiolrwydd adfer tirwedd coedwigoedd fel rhan o liniaru newid yn yr hinsawdd.</p>
Mandy Marsh	<p>Beth mae CIEEM yn ei wneud i'r ecolegwyr a'r amgylchedd</p> <ul style="list-style-type: none"> • CIEEM yw'r Sefydliad Siartredig ar gyfer Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol ac mae'n gweithio i adeiladu sector cryfach, gan sicrhau safonau proffesiynol uchel a gwell amodau gwaith. • Rydym yn pennu ac yn cadarnhau safonau drwy ganllawiau, Codau Ymarfer ac Ymddygiad, ac atebolrwydd. Mae ein fframwaith cymhwysedd yn sicrhau mai dim ond y rhai sy'n cyrraedd y lefel ofynnol o brofiad ac arbenigedd fydd yn cael eu derbyn fel aelodau. • Rydym yn helpu gyda Datblygiad Proffesiynol drwy gyrsiau a chynadleddau, sector ac e-newyddion, In Practice, Cynllun Mentora a gwefan Green Jobs for Nature. • Drwy Bolisi ac Eiriolaeth rydym yn cynrychioli diddordebau arbenigol, gan ddod â gwyddoniaeth i bolisi, dylanwadu a chynrychioli ar lefel genedlaethol. • Pwy yw ein haelodau? Mae gennym aelodau ar bob lefel, o fyfyrwyr i Ecolegydd Siartredig, ac yn gynyddol drwy lwybrau heb radd.
Emily Stevenson, Aileen Mill, Peter Robertson, Emily Hickinbotham, Louise Mair, Nigel Willby, Olaf Booy, Kirsty Witts a Zarah Pattison	<p>Crynoi 35 mlynedd o ymchwil gwyddoniaeth ymlediad</p> <ul style="list-style-type: none"> • Fe wnaethom adolygu corpws o ~10 000 o bapurau ymchwil a defnyddio Modelu Pwnc i nodi'r prif themâu a phynciau ymchwil yn y llenyddiaeth gwyddoniaeth ymlediad ac i ddeall sut mae'r rhain wedi newid dros y 35 mlynedd diwethaf. • Rydym yn canolbwyntio'n benodol ar ba mor dda y mae pynciau ymchwil ar rywogaethau anffrodorol ymledol yn gysylltiedig â rheolaeth a pholisi gan fod astudiaethau blaenorol wedi canfod datgysylltiad rhwng yr ymchwil a gynhyrchwyd a'i gymwysiadau polisi a rheolaeth. • Roedd gennym ddiddordeb arbennig yn y modd y newidiodd y sylw i bynciau dros amser e.e. cynnydd yn yr erthyglau yn canolbwyntio ar asesiadau risg ers y 1980/90au. • Rydym yn trafod cyffredinolrwydd neu benodolrwydd pynciau a pha mor dda yr oedd y pynciau'n gysylltiedig â'i gilydd. Roedd diffyg amlwg o ran erthyglau'n canolbwyntio ar oblygiadau economaidd-gymdeithasol rhywogaethau anffrodorol ymledol a chynefinoedd penodol fel yr arctig. Dangosodd y canlyniadau ffocws ar grwpiau tacsonomig penodol a diffyg cydweithio rhyngddisgyblaethol mewn meysydd polisi a rheolaeth. • Gwelsom nad oedd Polisi'n dangos llawer o gysylltiad â phynciau eraill a'i fod hefyd yn bwnc penodol iawn, ac felly'n fwyaf tebygol yn unig ffocws mewn erthygl. Rhywbeth efallai y mae angen i ni fel cymuned ei wella os ydym am gyrraedd targedau byd-eang yn y dyfodol ar gyfer rheoli rhywogaethau ymledol.
Hannah Tidbury	<p>Gwell tystiolaeth fel sail i fonitro rhywogaethau ymledol morol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae angen monitro rheolaidd i ganfod rhywogaethau ymledol yn gynnar, lliniaru eu heffeithiau, asesu cydymffurfiaeth â deddfwriaeth berthnasol, a phennu effeithiolrwydd y camau rheoli. • Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw waith monitro pwrpasol ar gyfer rhywogaethau ymledol morol yn nyfroedd y DU. • Nod prosiect Ymchwil a Datblygu Cefas sy'n cael ei gyllido gan Defra yw datblygu a gweithredu methodolegau i flaenoriaethu rhywogaethau ymledol a safleoedd risg uchel, a gwella'r sylfaen dystiolaeth ynghylch defnyddio eDNA i fonitro rhywogaethau ymledol. • Bydd y gwaith hwn yn sail i benderfyniadau polisi ynghylch monitro rhywogaethau ymledol a monitro morol yn ehangach.



Supported by



Posterï

Bydd posterï ar gael drwy gydol y dydd yn y brif ystafell i'r mynychwyr eu gweld. Nid oes sesiwn posterï ffurfiol. Os gwelwch yn dda edrychwch ar y posterï yn ystod ein hegwyliau a thros ginio.

Awdur cyntaf	Teitl / Maes Pwnc
Gareth Holland-Jones, WaREN	Siarter Gwarchod Natur Nawr Rhwydwaith Ecolegol Gwynn Cymru a Strategaeth Bioddiogelwch Cymru
Steph Bradbeer, Yorkshire Water	Mapiwr INNS: ap a gwefan ar gyfer rhoi gwybod am weld, arolygu a rheoli INNS ym Mhrydain Fawr
Katie Dey, Prifysgol Portsmouth	Effeithiau posibl y gragen las y graig Asiaidd (<i>Arcuatula senhousia</i>) anffrodorol yn y DU
Mandy Marsh, CIEEM	Sefydliad Siartredig ar gyfer Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol
Yevhen Suprunenko, Prifysgol Caergrawnt	Amcangyfrif yr ehangu ar amrediad y gwyfyn ymdeithiwr y derw (<i>Thaumetopoea processionea</i>) yn y DU rhwng 2006 a 2019 Brasamcan dadansoddol ar gyfer ymlediad a throthwyon endemig, a'r rheolaeth optimal ar epidemigau mewn modelau unigol eglur yn ofodol
Aileen Mill, Prifysgol Newcastle	Rheolaeth addasol ar y boblogaeth eiconig o eifr <i>Capra hircus</i> ymledol yn Llandudno
Oluwandunsin Adekola, Prifysgol Coventry	Cofnodi effeithiau rhywogaethau ymledol drwy wyddoniaeth dinasyddion: astudiaeth beilot
Katie O'Shaughnessy, APEM Ar ran Natural England	Archwilio, adolygu a blaenoriaethu ar gyfer cynllunio bioddiogelwch rhywogaethau anffrodorol ymledol morol yn Lloegr.